Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Llifon
# Groeslon
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 7DT

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Llifon

Mae Ysgol Gynradd Bro Llifon ym mhentref Groeslon, Gwynedd. Fe agorwyd yr ysgol ym Medi 2015 i wasanaethu ardal Groeslon, Carmel a'r Fron.

Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol. Mae 134 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 21 yn y dosbarth meithrin. Fe'i rhennir yn chwe dosbarth oedran cymysg.

Mae tua 14% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol. Mae tua 83% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 15% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2015. Hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae'r staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n dda iawn er mwyn sicrhau ethos gofalgar a lles uchel disgyblion a chânt gefnogaeth dda iawn gan y llywodraethwyr. Mae gan holl aelodau'r staff weledigaeth gadarn i hybu Cymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion i wneud eu gorau.

Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda am gyfnodau hir. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch ac aeddfedrwydd.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion yn sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud, yn siarad yn eglur ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus. Maent yn awyddus i gynnig atebion, sylwadau a mynegi barn wrth siarad am eu gwaith. Maent yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn dethol deunyddiau darllen yn annibynnol, gan gynnig rhesymau dilys am eu dewis. Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb, balchder ac yn mwynhau darllen ar goedd gan wneud hyn yn gynyddol hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn y Gymraeg a Saesneg ac yn trafod eu hoff lyfrau'n aeddfed. Maent yn mynegi barn am gymeriadau, agweddau ac arddull yn gynyddol huawdl. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ddarllenwyr annibynnol sy'n cywain, galw i gof a threfnu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau yn gwbl annibynnol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion o oedran ifanc iawn yn dangos dealltwriaeth dda o atalnodi ac yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio berfau, ansoddeiriau a chymariaethau diddorol i gyfoethogi eu gwaith. Mae llawer yn creu gwaith estynedig o safon uchel wrth ysgrifennu stori, er enghraifft am eu hoff archarwyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n gynyddol fyfyrgar a dychmygus yn y ddwy iaith, gan ddangos gafael sicr ar elfennau iaith ac ystod o ffurfiau. Maent yn ysgrifennu mewn modd aeddfed a gwreiddiol gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, er enghraifft wrth gofnodi ymchwiliad i rymoedd ac yn eu hastudiaeth o gyflymder afon Abergwyngregyn. Mae rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau yn effeithiol wrth ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y rhan fwyaf yn drefnus a thaclus.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, siâp, amser a data, er enghraifft wrth greu tabl a graff bar manwl i gofnodi gwybodaeth am hoff ffrwythau disgyblion y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus ac yn datblygu strategaethau priodol, er enghraifft wrth gymharu a dehongli data am

boblogaeth tref Aberystwyth a thref Esquel. Maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau rhif sy'n mynd yn fwyfwy anodd. Maent yn cymhwyso ystod o fedrau mesur priodol yn hyderus gan ddefnyddio degolion, cyfrifo amser, cyfrifo unedau safonol a'u trosi i broblemau bywyd go iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau TGCh i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn defnyddio cyfres o gyfarwyddiadau'n gywir er mwyn symud crwydryn i ail-ddweud stori Dwynwen. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus wrth greu ffilm i ddisgrifio streic y Penrhyn. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau ardderchog at ddysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda am gyfnodau hir. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o sut i wella eu gwaith ac yn cyfeirio'n rheolaidd at eu targedau unigol wrth iddynt weithio. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu llwyddiant yn eu tasgau.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog y tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch ac aeddfedrwydd. Nodwedd arbennig yw'r ffordd mae bron pob disgybl yn cefnogi dysgu ei gilydd gan ddangos lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill, er enghraifft trwy ganmol ac ymateb yn gwrtais i syniadau eraill. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus, galluog ac annibynnol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at greu awyrgylch ddysgu effeithiol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac mae disgyblion o bob oedran yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd angen cymorth arnynt.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus a moesol. Maent yn trafod trefniadau a bywyd yr ysgol gydag aeddfedrwydd a sensitifrwydd ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r byd ehangach. Maent yn dangos balchder yn eu llwyddiannau ac yn ymfalchïo yn eu cyfrifoldebau fel 'helpwyr y dydd' yn nosbarthiadau'r cyfnod sylfaen. Mae'r disgyblion sydd ar y pwyllgorau niferus yn ymgymryd â'u gwaith yn gydwybodol. Mae'r pwyllgor elusennau yn cynnal gweithgareddau llwyddiannus i godi arian a chasglu bocsys esgidiau sy'n llawn nwyddau ar gyfer plant llai ffodus. Mae'r cyngor ysgol yn cymryd rhan flaenllaw yn natblygiad yr ysgol, er enghraifft drwy lythyru a thrafod gyda swyddogion yr awdurdod lleol i gwblhau cae'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Yn y cyfnod sylfaen, mae staff yn meithrin annibyniaeth a datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o

egwyddorion y cyfnod hwn ac maent yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu’n annibynnol o’r cychwyn. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon drwy annog disgyblion i gymhwyso’u medrau mewn tasgau heriol. Mae egwyddorion y cwricwlwm newydd yn barod ar waith yng nghyfnod allweddol 2, ac mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae cynllunio’r athrawon yn fanwl ac yn seiliedig ar themâu sy’n adeiladu’n systematig ar wybodaeth a medrau’r disgyblion yn dda. Fodd bynnag, prin yw’r cyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Caiff y gwersi eu cynllunio’n a’u haddasu’n briodol i ymateb i anghenion penodol y disgyblion. Fe roddir cyfleoedd cyson i ddisgyblion ar draws yr ysgol awgrymu trywyddau dysgu sy’n seiliedig ar eu diddordebau. Mae hyn yn ennyn eu cyfranogiad a’u hymrwymiad yn llwyddiannus.

Mae perthynas waith gadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a’r disgyblion ymhob dosbarth. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae’r holl staff yn creu naws hynod gadarnhaol sy’n hyrwyddo hyn yn llwyddiannus ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith. Mae darpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau cyfoethog a diddorol i ddatblygu dealltwriaeth o’u hardal a diwylliant Cymru. Enghraifft dda o hyn yw’r ymweliadau i ganolfannau hanesyddol fel amgueddfa lechi leol a chyfleoedd rheolaidd i gystadlu mewn eisteddfodau.

Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae’r disgyblion i gyd yn deall hyn. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn cyflawni safonau da. Mae pob athro yn defnyddio amrywiaeth ddiddorol o ddulliau addysgu sy’n ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion yn dda. Mae’r cyflwyniadau’n fywiog gyda chyflymder da. Mae’r athrawon yn holi’r disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddefnyddio’u medrau yn gyson yn y gwersi.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Ceir enghreifftiau da o adborth ysgrifenedig pwrpasol ac mae sylwadau’r athrawon yn ymateb i dargedau unigol, ac yn aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion. Mae’r athrawon yn annog y disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i’w sylwadau. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, ddealltwriaeth gadarn o ba mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da gofal, cymorth ac arweiniad y staff yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. O ganlyniad, teimla’r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol.

Mae medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn datblygu’n llwyddiannus iawn. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd cadarn. Maent yn dysgu am faterion moesegol fel

masnach deg a sut gallant chwarae rhan i sicrhau byd tecach. Mae'r cynllun 'Bydis Buarth' sy'n annog disgyblion i gynnal a gofalu am ei gilydd yn ystod adegau egwyl yn cyfrannu'n ardderchog at sicrhau cymuned gynhwysol a chyfartal.

Mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo disgwyliadau a gwerthoedd uchel yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb aeddfed dros eu gweithredoedd. Fe drefnir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion leisio'u barn trwy gynghorau amrywiol. Mae'r arweinwyr a'r staff yn ystyried eu barn o ddifri, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder y disgyblion ac yn meithrin synnwyr o falchder a chyfrifoldeb dros eraill ynddynt.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ynglŷn ag amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau amlwg o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais ar hybu gwerthoedd cytûn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni drwy gyfryngau cymdeithasol, sy'n ddull buddiol a chyson o gysylltu a rhannu gwybodaeth. Mae'r arweinwyr a'r staff yn barod i wrando ar safbwyntiau rhieni a'u hawgrymiadau ac yn eu hannog i chwarae rhan weithredol a llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae gweithdrefnau llwyddiannus i olrhain cynnydd a monitro lles ei disgyblion ac mae'r staff yn eu diweddaru'n gyson. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Gwna'r staff ddefnydd da o wybodaeth o asesiadau ffurfiol ac asesiadau athrawon i adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar, ac mae staff yn darparu rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus ar eu cyfer. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol i gynorthwyo'r disgyblion hyn. O ganlyniad, mae'r athrawon yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae ymweliadau addysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i gyfoethogi profiadau dysgu y disgyblion a chyfleoedd da iddynt berfformio mewn cyflwyniadau a chyngherddau, ac i gystadlu mewn eisteddfodau.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac mae ei threfniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn glir i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae holl gymuned yr ysgol yn ymrwymo i arwyddair yr ysgol, sef 'Camu 'mlaen gyda'n gilydd'.

Fe gynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. Mae agendâu yn sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle ac yn cynnwys targedau perthnasol i'r staff sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y profiadau eang a gwerthfawr sy'n cael eu darparu i'r disgyblion.

Mae’r pennaeth yn sicrhau bod cyfleoedd addas i staff elwa o weithgareddau dysgu proffesiynol effeithiol.  Mae’r ysgol wedi meithrin perthynas waith effeithiol gydag ysgolion eraill tebyg ac wedi elwa’n fawr mewn meysydd fel asesu ar gyfer dysgu a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Defnyddir cymorthyddion dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion unigol ac i weithredu rhaglenni ymyrraeth perthnasol.  Mae’r gefnogaeth hon yn cyfrannu’n llwyddiannus at wella medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar, ac mae gan bob aelod gyfrifoldeb penodol.  Maent yn ymweld â’r dosbarthiadau ac yn craffu ar waith y disgyblion, ac oherwydd hyn, mae eu dealltwriaeth o gryfderau’r ysgol ac o’r meysydd sydd angen eu datblygu yn gadarn.  Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.  Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli’r gyllideb yn ofalus ac mae gwariant yn cysylltu’n dda â’i chynlluniau ar gyfer gwella.  Mae’r ysgol yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i wella medrau darllen yr ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae prosesau hunanarfarnu’r ysgol yn gynhwysfawr ac wedi eu seilio’n gadarn ar dystiolaeth eang, wedi ei chasglu drwy graffu ar waith, arsylwi gwersi a holi barn disgyblion a rhieni.  Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun perthnasol o gryfderau’r ysgol a’r agweddau sydd angen sylw pellach.  Mae’r cynllun datblygu ysgol yn deillio’n uniongyrchol o’r dystiolaeth o’r broses hunanarfarnu ac yn manylu’n rhesymegol ar y prif flaenoriaethau.  Mae’n ddogfen gryno a chlir gyda nifer addas o flaenoriaethau perthnasol i weithredu arnynt.  Mae’r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrifoldeb monitro a gwerthuso effeithiolrwydd, yn glir.  Mae gallu’r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant yn amlwg wrth weld cynnydd yn nifer y disgyblion mwy abl sy’n cyflawni'r deilliannau a lefelau uwch.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2019